# NWR(2)-02-03 (p 4)

# Pwyllgor Rhanbarth Y Gogledd

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Gwener 3 Hydref 2003 |
| Amser: | 10.00am tan 12.30pm |
| Lleoliad: | Neuadd Dwyfor, Pwllheli |

## Rhaglen Waith Y Pwyllgor 2003-04

### Pwrpas

1. Gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn.

### Cefndir

2. Mae Rheol Sefydlog 10.2 yn galluogi pwyllgor rhanbarth i benderfynu ar ei raglen waith. Yn y cyfarfod cyntaf ar 4 Gorffennaf gofynnais i Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd awgrymu pynciau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

### Rhaglen waith

3. Amgaeaf raglen waith bosibl.

### Argymhelliad

4. Bod y Pwyllgor yn cytuno ar y rhaglen waith amgaeedig.

JANET RYDER AC

CADEIRYDD Y PWYLLGOR

Cyswllt: Siwan Davies, Clerc y Pwyllgor

## Atodiad

### Pwyllgor Rhanbarth Y Gogledd

## Rhaglen Waith Ddrafft: 2003-04

| Dyddiad | Lleoliad | Eitem ar yr agenda |
|---|---|---|
| 4 Gorffennaf 2003 | NEWI, Wrecsam | Rheoli gwastraff<br><br>Gwahanol agweddau ar y sialens o ddatblygu dulliau mwy cynaliadwy o reoli gwastraff yn y Gogledd |
| | | |
| 3 Hydref 2003 | Neuadd Dwyfor, Pwllheli, Gwynedd | Tai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy<br><br>Cyfraniad Gogledd Cymru i ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| | | |
| 27 Tachwedd (gyda'r nos) neu 28 Tachwedd (bore) 2003 | Conwy | Datblygu cynaliadwy<br><br>Adolygiad o Gynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad a'i effaith ar Ogledd Cymru |
| | | |
| Cyfarfod 1af tymor y gwanwyn 2004 | Sir Ddinbych | Addysg<br><br>Gweinyddu ac ariannu addysg bellach yng Ngogledd Cymru |
| | | |
| 2il gyfarfod tymor y gwanwyn 2004 | Ynys Môn | Masnachu teg<br><br>Cynnyrch a gwasanaethau o ffynonellau moesegol, sy'n parchu'r amgylchedd ac sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol, a'u defnydd wrth gaffael yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfod 1af tymor yr haf 2004 | Sir y Fflint | Datblygu economaidd a thrafnidiaeth<br><br>Datblygiad economi Gogledd Cymru (cymorth i fusnesau) a’r rhwydwaith trafnidiaeth (gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus) |

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Medi 2003